**ATODIAD 6**

**TRETH CYNGOR**

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor Llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau a gyflwynir yn yr adroddiad yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2026/27. Yr allwedd i hyn yw cael balans priodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 5% fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth i adlewyrchu'r bwlch oedd yn bodoli yn sgil setliad grant Llywodraeth Cymru.

3. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2016/17:

| **Blwyddyn** | **Cyngor Gwynedd** | **Cymru** |
|---|---|---|
| 2025/26 | 8.66% | 7.1% |
| 2024/25 | 9.54% | 7.8% |
| 2023/24 | 4.95% | 5.5% |
| 2022/23 | 2.95% | 2.2% |
| 2021/22 | 3.7% | 3.6% |
| 2020/21 | 3.9% | 4.6% |
| 2019/20 | 5.8% | 6.2% |
| 2018/19 | 4.8% | 4.9% |
| 2017/18 | 2.8% | 3.0% |
| 2016/17 | 4.0% | 3.6% |

Yn 2025/26 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,907 tra roedd lefel treth gyfartalog siroedd Cymru yn £1,747.

Ceir mwy o fanylion yn y ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): Council Tax levels: April 2025 to March 2026 | GOV.WALES

4. Eleni, argymhellir codi'r dreth 5.17% ar gyfer 2026/27. Byddai hynny'n cynhyrchu £116m o dreth (o'i gymharu â £108m yn 2025/26), sy'n cynnwys £9.9m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr â chynnydd yn y Dreth Cyngor o £98.62 i eiddo mewn Band D, neu £1.90 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 7.01% ar gyfer 2026/27) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

5. Mae dros 8,335 o dai yn derbyn elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor trwy’r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, ac mae dros 61% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Yn ogystal â hynny, mae ystod eang o eithriadau a disgowntiau statudol yn bodoli, sy’n berthnasol i statws yr eiddo.

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cynnydd cyfartalog ar draws Cymru yn 2026/27, ond yr wybodaeth ddiweddaraf yw y bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae’r cynnig gerbron i godi’r dreth 5.17% yn gyson â’r sefyllfa ar draws y gogledd. Byddai pob 1% ychwanegol o dreth yn addasu’r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £1,100,040. Felly, byddai 3.5% yn golygu addasu’r bwlch ariannol tua £3,850,150 tra byddai 5% yn golygu addasu’r bwlch ariannol o tua £5,500,210.

7. Mae’r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i’r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i’r balans y maent yn ystyried sy’n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i drafodaethau anffurfiol mewn fforymau aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 5.17%, fyddai’n gynnydd wythnosol o £1.90 neu £98.62 yn flynyddol, gyda threth Band D o £2,006.11 am 2026/27.**

**CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI**

8. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 4 Rhagfyr 2025, penderfynwyd parhau gyda’r premiwm o 150% ar ail gartrefi ac i gynyddu’r premiwm ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy o 100% i 150% ar gyfer 2026/27. Amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn derbyn £9.9m o incwm yn 2026/27 trwy’r premiwm, sy’n gynnydd o £0.9m. Mae £6.9m o’r arian wedi ei neilltuo i gronfa er mwyn gweithredu’r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau, a £3m i'r gyllideb digartrefedd.

9. Rhaid ymgorffori’r holl incwm a chyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2026/27.